# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 3 Mehefin 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cynnydd Datblygu Economaidd

**C11 John Griffiths:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y datblygiadau o ran cyflawni targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru? (OAQ24260)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Eglurir nodau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru yn 'Cymru'n Ennill'. Cyflwynwyd adroddiad chwe misol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 31 Hydref 2002, a chyhoeddir yr haf hwn adroddiad llawn ar y cynnydd a gafwyd yn erbyn y targedau a 71 o bwyntiau gweithredu y cynllun.

### Ysbyty Newydd yng Nghaerffili

**C12 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar hynt y cynlluniau i ddatblygu ysbyty newydd yn etholaeth Caerffili i gymryd lle Ysbyty Dosbarth y Glowyr, Caerffili? (OAQ24270)

**Y Prif Weinidog:** Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gwent yw llunio cynlluniau i ysbyty newydd yn lle Ysbyty Dosbarth y Glowyr, Caerffili. Cyflwynodd yr ymddiriedolaeth achos strategol amlinellol, a gymeradwywyd ym Mawrth 2002. Disgwylir i'r ymddiriedolaeth gyhoeddi papur ymgynghorol fis nesaf ar gynigion gwasanaethau'r dyfodol. Cyflwynir wedyn achos busnes amlinellol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei ystyried.

### Cyfranogiad Pobl Ifanc

**C13 Val Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r rhan sydd gan bobl ifanc i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel? (OAQ24248)

**Y Prif Weinidog:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau â'i hymagwedd strwythurol at ddatblygu cyfranogi mewn penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r Ddraig Ffynci, Cynulliad Cymru'r plant a phobl ifanc, ffora plant a phobl ifanc ar lefel awdurdodau lleol ac ymroddiad i sefydlu cynghorau ysgol ymhob ysgol gynradd ac uwchradd.

### Defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddisgrifio'r camau sydd i'w cymryd i gefnogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru yn sgîl y ffaith fod iaith arwyddion Prydain bellach wedi derbyn cydnabyddiaeth swyddogol? (OAQ24269) [R]

**Y Prif Weinidog:** Mae swyddogion yn cwrdd â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i sicrhau bod systemau digonol ar gyfer monitro cyrhaeddiad y cymwysterau gorfodol. Rhoddwyd arian o'r Cynulliad drwy'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddi, i blant ag anghenion addysgol arbennig i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, mae Iaith Arwyddion Prydain ar gael ar gais ar gyfer holl drafodion a chyfarfodydd y Cynulliad sy'n agored i'r cyhoedd ac sydd â chyfraniad trawsbleidiol.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ24277) yn ôl.*